wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

## Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

## Taflen Glawr Sefydliadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y prosiect** | | | |
| **Swm y cais (£)** | | | |
| **Enw'r sefydliad** | | | |
| Enw'r prif gyswllt | | | |
| Enw ac e-bost caderirydd y selfydliad | | | |
| Cyfeiriad y sefydliad | | | |
| Cod Post | | Awdurdod lleol | |
| Rhif ffôn | | E-bost | |
| Gwefan | | | |
| Rhif Ty'r Cwmniau | | Rhif cofrestru TAW (os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer TAW) | |
| Dyddiad dechrau'r prosiec | | Dyddiad gorffen y prosiect | |
| Cyfanswm cost y prosiect **(£)** | | | |
| Nodwch unrhyw gostau hygyrchedd yma (punnoedd cyflawn yn unig) | | | |
| **Partneriaid rhyngwladol**<br><br>(Rhowch enwau, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn eich partneriaid rhyngwladol) | | | |

**PWYSIG**

Efallai bydd angen inni ofyn am ragor o wybodaeth neu ddogfennau. Cadwn yr hawl i ofyn am eirdaon os bydd angen. Bydd unrhyw ddatganiadau camarweiniol, boed hwy'n fwriadol neu'n ddamweiniol, ar unrhyw gam o'r broses yn gwneud eich cais yn annilys. Bydd yn rhaid ichi wedyn ddychwelyd unrhyw arian a dalwyd eisoes fel grant wrth Gyngor Celfyddydau Cymru.

O gael grant byddwch yn gyfrifol yn bersonol am unrhyw rwymedigaeth treth sy'n deillio ohono. Dylech gael cyngor proffesiynol felly cyn cael unrhyw grant.

Gwaharddir eich cais o'r rownd os clywn eich bod wedi lobïo unrhyw un o'n Hymgynghorwyr Celfyddydol, aelodau o'n Pwyllgor neu'n Cyngor.

**RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL A RHYDDID GWYBODAETH**

Dylech wybod am ein rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Rheola'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol sut yr ydym yn casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau dros ein rheolaeth o'ch data. Mae rhagor o wybodaeth yn ein Polisi Preifatrwydd a gyhoeddwyd. Rheola Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sut y darparwn ichi fynediad ar gais i wybodaeth wedi'i chofnodi a ddaliwn. Un o ganlyniadau'r cyfrifoldebau statudol hyn yw y gellid datgelu gwybodaeth amdanoch, mewn ymateb i gais, oni phenderfynwn fod un o'r eithriadau statudol yn gymwys.

Os anfonwch wybodaeth y credwch iddi fod yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol, bydd arnoch angen nodi hynny'n glir. Byddai o gymorth inni pe medrech esbonio'n fyr y rhesymau am y cyfrinachedd ac am ba hyd y pery hwn. Os gwneir cais am y wybodaeth hon, bydd hyn yn ein helpu i gadarnhau ein rheswm dros beidio â darparu'r wybodaeth os credwn y byddai peidio â gwneud yn briodol. Ond peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd eithriad awtomatig yn gymwys os nodwch fod gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif. Rhaid ystyried ffactorau eraill ar y pryd hefyd, megis natur a chwmpas y wybodaeth a geisir a phryd y gwneir cais. (Cymer rheolau Rhyddid Gwybodaeth yn ganiataol fod cyfrinachedd/sensitifrwydd masnachol yn pylu dros amser).

Weithiau cynnwys gwybodaeth, data a deunyddiau o unrhyw natur ddata Personol neu ddata Personol Sensitif (fel y diffinnir hwy yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol). Os yw hyn yn gymwys, ni ddatgelwn unrhyw wybodaeth gyfrinachol i drydydd parti heb eich cydsyniad.

**DATGANIAD**

Drwy gyflwyno'r ffurflen gais hon, cytunwch â'r datganiadau canlynol:

- Cadarnhaf fod yr holl wybodaeth sydd yn y cais hwn, ac mewn unrhyw ddeunydd ategol a gyflwynir, yn wir a chywir.
- Cadarnhaf y bodlona'r cais hwn amcanion cyfansoddiad ein sefydliad.

- Cadarnhaf fy mod wedi datgelu'r holl geisiadau am arian sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn ac addawaf roi gwybod i Gyngor Celfyddydau Cymru os bydd unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n gofyn am newid yn y cais neu'r deunydd ategol. Deallaf y rhannwch wybodaeth am grantiau â chyrff eraill sy'n dyrannu grantiau ac felly byddwch mewn sefyllfa i wirio fy natganiad o'r grantiau eraill.
- Cadarnhaf fod gan ein sefydliad y polisïau perthnasol ar waith sy'n ofynnol dan y gyfraith.
- Cadarnhaf fod ein sefydliad wedi cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio priodol dros y deuddeng mis diwethaf (i sefydliadau sy'n gofrestredig â Thy'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau).
- Cadarnhaf fod gan ein sefydliad Bolisi Cyfle Cyfartal ar waith sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac a adolygwyd gan ein bwrdd neu'n pwyllgor rheoli yn y tair blynedd diwethaf. Gallaf ddarparu tystiolaeth o hyn ar gais.
- Cadarnhaf fod gan ein sefydliad Gynllun Gweithredol i wneud ein gwaith yn fwy cynhwysol a adolygwyd gan ein bwrdd neu'n pwyllgor rheoli yn y tair blynedd diwethaf. Gallaf ddarparu tystiolaeth o hyn ar gais.
- Cadarnhaf fod gan ein sefydliad Bolisi Diogelu ac Amddiffyn Plant ar waith sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac a adolygwyd gan ein bwrdd neu'n pwyllgor rheoli yn y tair blynedd diwethaf. Gallaf ddarparu tystiolaeth o hyn ar gais.
- Cadarnhaf y gallaf roi tystiolaeth bod diogelwch priodol a digonol ar waith os yw gweithio gyda phlant, pobl ifainc a/neu oedolion hyglwyf yn rhan o'r prosiect hwn. Cynnwys hyn sicrhau y gwneir unrhyw wiriadau diogelwch angenrheidiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Cadarnhaf y ffurfia'r cais hwn, os llwydda, ran o'r cytundeb â Chyngor Celfyddydau Cymru.

- Cadarnhaf fod y sefydliad a enwir ar y ffurflen

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Dyddiad | |